



CYNHYRCHYDD DATBLYGIAD CREADIGOL

£35,000 y flwyddyn - amser llawn (gyda gweithio'n hyblyg yn bosibl)

Contract tymor penodol, 2 flynedd

Bydd angen rhywfaint o weithio o Gaerdydd

Mae National Theatre Wales yn cael ei ysgogi gan anelu at gysylltiad. Rydym yn gweld theatr fel arf i ddod â phobl ynghyd i fyfyrion, archwilio a chael ein hysbrydoli gan straeon ein cenedl. Rydym am i bawb yng Nghymru weld eu hunain, eu cymunedau, eu profiadau a'u dyfodol yn cael eu dychmygu yn y gwaith yr ydym yn ei wneud. Mae ein staff wrth wraidd cyflawni'r pwrpas hwnnw.

YNGLŶN Â'R RÔL

Mae'r Cynhyrchydd Datblygiad Creadigol yn National Theatre Wales (NTW) yn canolbwyntio ar gyflwyno ein rhaglen datblygiad creadigol, sy'n cefnogi ac yn datblygu artistiaid a syniadau.

Yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu ac yn gweithio'n agos gyda'r Cydymaith Creadigol a'r Cyfarwyddwr Artistig, bydd y rôl hon yn datblygu ac yn cyflawni dull integredig tuag at ddatblygiad artistiaid a datblygiad creadigol ledled NTW. Bydd y Cynhyrchydd Datblygiad Creadigol hefyd yn gweithio gydag artistiaid a gwneuthurwyr theatr i roi cynulleidfaoedd wrth wraidd eu ffordd o feddwl a'u dull, gan agor prosesau Ymchwil a Datblygu ac ymgynghori â chynulleidfaoedd ynghylch syniadau a datblygu gwaith.

Gan gyfuno cynllunio, cyflawni ac adeiladu partneriaethau, mae hon yn rôl hanfodol yn NTW gan weithio gydag artistiaid a chymunedau o bob rhan o Gymru yn ogystal â chysylltu gwaith ein timau Cydweithio a Chynulleidfa â'r rhaglen Datblygiad Creadigol.

YN GYFRIFOL I:

Cyfarwyddwr Cynhyrchu

PWY RYDYM YN MEDDWL YR YDYCH CHI O BOSIBL

Cynhyrchydd ag angerdd am ddarganfod a chefnogi gwneuthurwyr theatr a chreu gwaith rhyfeddol mewn ffyrdd esblygol ac ysbrydoledig. Byddwch yn angerddol am adrodd straeon ac yn ymroddedig i agor drysau NTW i wneuthurwyr theatr o brofiadau byw niferus ac amrywiol Cymru. Yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a chydag ymrwymiad dwfn i

gysylltu cynulleidfaoedd a chymunedau â chreu gwaith, byddwch yn ymarferol, yn ddeinamig ac yn feddylgar.

Mae arnom angen gweithlu sy'n cynrychioli sbectrwm cyfan o brofiadau byw. Po fwyaf amrywiol yw'r safbwyntiau sydd gennym sy'n dylanwadu ar yr hyn a wnawn, y cryfaf a'r mwyaf ystyrllon fydd ein gwaith. Rydym yn annog ceisiadau gan bob cymuned, ffydd, cefndir a chan unrhyw un sy'n profi hiliaeth neu ragfarn ar sail anabled. Rydym yn cydnabod y model cymdeithasol o anabled ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n cyflogeion i gael gwared ar rwystrau i gynhwysiant. Rydym hefyd yn ceisio goresgyn y rhwystrau a wynebir gan ymgeiswyr sydd â chyfrifoldebau gofalu trwy ddiwylliant gweithio hyblyg.

GWEITHIO I NTW

Mae gan bob aelod o staff yn NTW rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni nodau'r Cwmni. Rydym i gyd yn eiriolwyr dros waith ac ethos y cwmni, a chaiff Aelodau'r Cwmni eu hannog i fynd i weld gwaith, datblygu rhwydweithiau a chysylltiadau, cyflwyno artistiaid ac aelodau cymunedol newydd i NTW, a helpu i ddatblygu syniadau ar gyfer y dyfodol. Mae bod yn bresennol mewn cyfarfodydd y Cwmni a chyfarfodydd Syniadau Creadigol, a chymryd rhan weithgar gyda TEAM NTW (ein rhaglen sy'n cynnwys ystod eang o gymunedau ym mhopeth a wnawn) yn rhan bwysig a gwerthfawr o swydd pawb. Y tu hwnt i dasgau penodol pob swydd-ddisgrifiad, mae'r gweithgareddau Cwmni gyfan hyn yn rhan allweddol o gyfraniad a chyflawniad pob aelod o staff.

PRIF GYFRIFOLDEBAU'R RÔL

Cwmni

Cynhyrchu a rheoli prosiectau mewn perthynas ag amrywiaeth o fentrau sy'n canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd effeithiol i wneuthurwyr theatr o Gymru ddatblygu syniadau, datblygu eu harfer ac adeiladu rhwydweithiau fel rhan o raglen NTW ac yn annibynnol.

- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Artistig, y Cyfarwyddwr Cynhyrchu a'r tîm ehangach i sicrhau bod NTW yn defnyddio dull blaengar, llawn dychymyg a chynhwysol at ddatblygu artistiaid a syniadau;
- Sicrhau bod y sefydliad yn gallu arwain ac ymateb i arfer artistig newydd a datblygol;
- Helpu i adeiladu hunaniaeth ddeinamig ar gyfer y cwmni trwy brosiectau arloesol a chydweithrediadau eang;
- Rhoi cynhwysiant, mynediad a chynaliadwyedd amgylcheddol wrth wraidd arfer NTW;
- Bod yn wyneb cyhoeddus hawdd mynd ato ar gyfer y cwmni, yn unol â gwerthoedd y Cwmni;

- Cydlynu Cyfarfodydd Syniadau a phaneli cyflwyniadau;
- Arwain ar sicrhau bod gwaith newydd gan wneuthurwyr theatr o Gymru yn cael ei weld ac yr ymgysylltir ag ef ar draws y Cwmni.

Artistig

Arwain ar drefnu, gweithredu a chynnal y rhaglen Datblygiad Creadigol.

- Gweithio ar gynllunio a chyflawni pob agwedd ar waith NTW i ddatblygu artistiaid a syniadau;
- Gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Cynhyrchu a'r Pennaeth Datblygiad, nodi mentrau ariannu sy'n briodol i waith y rhaglen;
- Hyrwyddo'r rhaglen datblygiad creadigol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol;
- Cyflwyno amrywiaeth o artistiaid i'r Cwmni;
- Mewn partneriaeth â'r Cynhyrchydd, gweithio i gefnogi artistiaid a phrosiectau wrth iddynt symud trwy gamau datblygu i'r cynhyrchiad;
- Gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd i gefnogi artistiaid i roi cynulleidfaoedd wrth wraidd datblygiad eu gwaith, gan gynnwys ymgynghori ag aelodau'r gynulleidfa wrth lunio a datblygu prosiectau newydd;
- Gweld ac adrodd ar amrywiaeth o waith, yn enwedig gan gwmnïau ac artistiaid ar ddechrau eu gyrfa, a chyfrannu at sgysiau a chynllunio ynghylch comisiynau yn y dyfodol neu waith dilynol arall fel y bo'n briodol;
- Gweithio'n agos gyda'r Cydymaith a'r Cynhyrchydd Creadigol i ddeall anghenion a dyheadau artistiaid llawrydd yng Nghymru a llunio rhaglennu a pholisi i gefnogi'r anghenion hyn yn effeithiol;
- Arwain ar ystod o fentrau ar gyfer artistiaid ar ddechrau eu gyrfa fel rhaglen Cyfarwyddwyr newydd NTW ac Am Ddrama - ein menter darllen sgriptiau;
- Cydlynu ymateb NTW i syniadau a chynigion gan artistiaid, gan gynnwys rheoli'r gwaith Ewch i Weld gan sicrhau bod gwaith artistiaid o bob rhan o Gymru yn cael ei weld gan aelodau'r Cwmni;
- Gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cydweithio i nodi cyfleoedd i aelodau TEAM gael mynediad at gyfleoedd Datblygiad Creadigol a sicrhau synergedd rhwng gweithgareddau TEAM a Datblygiad Creadigol;
- Gweithio gyda'r Cynhyrchydd fel y bo'n briodol i hwyluso ymchwil a datblygiad prosiectau NTW yn y dyfodol, fel y'u pennwyd gan y Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu, gan gynnwys cyllidebu a chymorth sefydliadol, ymchwil, cyngor, arweiniad, a rheoli ansawdd;

- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Artistig i gomisiynu gwaith gan artistiaid unigol, awduron a grwpiau fel y bo'n briodol ac yn unol â Chynllun Strategol, uchelgeisiau artistig a nodau datblygu cynulleidfa y Cwmni.

Ymgysylltiad

Archwilio a datblygu modelau ar gyfer ymgysylltu gan yr ystod ehangaf posibl o artistiaid yng ngwaith y Cwmni, a datblygu cyfranogwyr amrywiol ar gyfer y rhaglen Datblygiad Creadigol.

- Bod yn bwynt mynediad i artistiaid a chymunedau sydd am ymgysylltu â NTW;
- Cydweithio, gan dynnu ar y sgiliau sydd ar gael o fewn y gymuned theatr bresennol yng Nghymru, a chymryd i ystyriaeth amrywiaeth ddaearyddol y wlad a'i gwahanol anghenion diwylliannol;
- Sicrhau bod y rhaglen Datblygiad Creadigol yn gweithredu o fewn ac yn arwain arfer gorau o ran mynediad, amrywiaeth a chynaliadwyedd;
- Gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Artistig, y Cyfarwyddwr Cynhyrchu a'r Cyfarwyddwr Cydweithio, a'r Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd i nodi a chydlynu cyfleoedd a llwybrau dilyniant i artistiaid a chwmnïau;
- Gweithio'n agos gyda'r Tîm Gweithredol a Phenaeithaid Adrannau i sicrhau bod gweithgareddau'r rhaglen Datblygiad Creadigol yn cael eu cynllunio yn unol ag adnoddau'r Cwmni, a bod adrannau eraill yn darparu adnoddau'n effeithiol i brosiectau.

Partneriaeth

Meithrin partneriaethau gydag ystod o gwmnïau ac unigolion creadigol, yn enwedig cwmnïau a sefydliadau Cymreig sy'n dod i'r amlwg sy'n delio â datblygiad artistiaid.

- Archwilio partneriaethau a phrosiectau cenedlaethol a rhyngwladol gyda sefydliadau sy'n cefnogi datblygiad artistiaid;
- Datblygu partneriaethau newydd a nodi mentrau ariannu i sicrhau bod twf cynaliadwy'r rhaglen Datblygiad Creadigol yn cael ei gyflawni;
- Gweithio'n agos gydag asiantaethau datblygu'r celfyddydau, cwmnïau ysgrifennu newydd a chanolfannau celfyddydau i nodi ac ymgysylltu ag artistiaid o ddiddordeb.

Rheolaeth

Sicrhau bod y rhaglen Datblygiad Creadigol yn cael ei rheoli'n gadarn ac yn effeithiol, a hynny'n unol â pholisi a gwerthoedd y cwmni, ac arfer gorau'r diwydiant.

- Gweithio'n agos gyda'r Pennaeth Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu i reoli cyllidebau pob adran, gan sicrhau bod y Rhaglen Datblygiad Creadigol yn gweithredu'n effeithiol ac yn unol â thargedau y cytunwyd arnynt;
- Sicrhau bod monitro, adborth a gwerthuso effeithiol yn cael eu cynnal a'u hadrodd;
- Cydgysylltu'n effeithiol â'r holl brif gyllidwyr a phartneriaid prosiectau, gan sicrhau bod nodau a rennir yn cael eu sefydlu a bod canlyniadau'n cael eu bodloni a'u hadrodd;
- Sicrhau bod yr holl allbynnau creadigol yn cael eu cofnodi ar gyfer adrodd arnynt, a bod data cynulleidfa/cyfranogwyr yn cael eu casglu a'u bwydo i systemau, cronfeydd data ac adroddiadau priodol;
- Sicrhau bod yr holl staff newydd, gweithwyr llawrydd neu leoliadau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Rhaglen Datblygiad Creadigol yn cael eu recriwtio a'u sefydlu'n effeithiol a'u bod yn cael eu goruchwyllo'n effeithiol ac yn unol â pholisïau NTW;
- Glynwr wrth bolisi iechyd a diogelwch y cwmni, gan ymgymryd â'r cyfryw ddyletswyddau ag sy'n ofynnol a sicrhau y cymerir gofal rhesymol i sicrhau amgylchedd gwaith iach a diogel.

MANYLEB Y PERSON*

*Mae NTW bob amser yn agored i ystyried buddsoddi mewn rhywun a all ddangos potensial datblygu i ni yn y rôl hon, er efallai na fyddant yn gallu dangos yr holl feini prawf hanfodol a restrir isod.

	Hanfodol	Dymunol
Profiad	<ul style="list-style-type: none"> ● Cynhyrchu a chyflwyno gweithgareddau datblygu creadigol a rhaglenni gwaith ● Datblygu, comisiynu a chynhyrchu prosiectau celfyddydol newydd, arloesol, arbrolfol gydag ystod amrywiol o artistiaid ● Rhoi adborth a chymryd rhan mewn deialog feirniadol ynghylch datblygiad theatr newydd ● Rheoli amrywiaeth o artistiaid, prosiectau cymhleth a risg 	<ul style="list-style-type: none"> ● Codi arian ar gyfer y celfyddydau ac adrodd arno yn llwyddiannus ac yn effeithiol ● Rhwydweithiau ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, gan gymryd rhan mewn adeiladu partneriaethau ar gyfer prosiectau a gwneuthurwyr theatr

	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu a chynnal perthnasoedd effeithiol â sefydliadau partner • Rheoli a chadw rheolaeth dros gyllidebau ac adnoddau 	
Gwybodaeth a Sgiliau	<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth a dealltwriaeth eang o berfformio cyfoes a byd y theatr yng Nghymru ac yn y DU • Y cymhelliant i arbrofi a thorri tir newydd • Y gallu i osod blaenoriaethau, nodau a thargedau clir ac i fonitro eu cynnydd • Ymrwymiad i dealltwriaeth a gweithrediad deinamig o Amrywiaeth Ddiwylliannol a Chyfle Cyfartal 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig
Rhinweddau Personol	<ul style="list-style-type: none"> • Ymrwymiad i weithio mewn tîm a dull hyblyg at arferion gweithio • Ymrwymiad i fynediad ac ymgysylltiad gan yr ystod ehangaf posibl o gymunedau • Arweinydd a chydweithiwr cryf • Ymrwymiad i ddefnyddio technoleg ddigidol o fewn arfer creadigol a datblygu cynulleidfa 	
Cymwysterau	<ul style="list-style-type: none"> • Addysg at safon gradd NEU amrywiaeth o gymwysterau 	

	a phrofiad perthnasol	
--	-----------------------	--

TELERAU AC AMODAU

- Cyflog: £35,000 y flwyddyn
- Oriau: 35 awr yr wythnos (yn ogystal ag egwyl orfodol am un awr, gan gymryd yr wythnos waith i 40 awr). Byddwn yn ystyried trefniadau gweithio hyblyg ar gyfer yr ymgeisydd iawn.
- Gwyliau: 25 diwrnod y flwyddyn (ac eithrio Gwyliau Banc statudol).
- Cyfnod: Ar ôl cwblhau cyfnod prawf o 3 mis, mae hon yn swydd tymor sefydlog am 2 flynedd

Cyfnod rhybudd: Yn dilyn cwblhau cyfnod prawf o 3 mis, y cyfnod rhybudd yw tri mis.

Pensiwn: Rydym yn cynnig cynllun pensiwn rhanddeiliaid gyda Royal London ar gyfer ein holl gyflogeion. Mae cyfraniadau misol yn cael eu tynnu o'ch cyflog; gallwch gyfrannu o leiaf 3% - mwy os dewiswch - ac rydym yn cyfrannu 5%. Ar ôl i chi gwblhau eich cyfnod prawf a'ch bod yn gwybod eich bod am aros, byddwch yn ymuno â'r cynllun yn awtomatig, a byddwn yn ôl-ddyddio cyfraniadau'r Cwmni i'ch dyddiad cychwyn.

SUT I WNEUD CAIS

Gallwch naill ai ysgrifennu llythyr eglurhaol heb fod yn fwy na 2 dudalen NEU ffilmio fideo ohonoch chi'ch hun yn para dim mwy na 5 munud. Nid ydym yn ffafrio un dull dros y llall, a byddwn yn hapus i dderbyn y naill fformat neu'r llall, felly mae croeso i chi ddewis pa un bynnag sydd fwyaf addas i chi. Yn eich llythyr eglurhaol neu fideo, dywedwch wrthym amdanoch chi, eich profiadau, eich sgiliau a'ch nodweddion sy'n berthnasol i'r swydd, a dywedwch ychydig wrthym am yr hyn yr ydych yn dyheu amdano mewn bywyd. Beth sy'n bwysig i chi? Beth ydych chi'n credu ynddo? Ble hoffech chi fod ymhen 3 blynedd? Pa newidiadau hoffech chi eu gwneud i'n cymdeithas? Beth ydych chi'n hoffi ei wneud?

Anfonwch eich llythyr eglurhaol neu fideo atom ni gyda [ffurflen gais](#) wedi'i llenwi a'ch CV (dim mwy na 2 dudalen os gwelwch yn dda, ynghyd â geirdaon) i:

work@nationaltheatrewales.org erbyn **5pm ar 6 Fehefin 2022**. Hefyd cwblhewch ein [ffurflen monitro Cyfle Cyfartal](#).

Os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer, byddwn yn eich gwahodd i gyfweiliad dros Zoom, sy'n debygol o ddigwydd yn ystod yr wythnos yn dechrau **20 Fehefin 2022**. Mae'r rhain yn sgysiau cyfeillgar, anffurfiol i raddau helaeth am 30 munud gyda thua thri o bobl gan gynnwys

Cyfarwyddwr Artistig NTW ac aelod o banel TEAM. Byddwn yn anfon amlinellid bras atoch o'r cwestiynau y byddwn yn eu gofyn i chi, a bywgraffiadau byr o'r uchod ymlaen llaw.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl neu'r broses, mae croeso i chi gysylltu ar work@nationaltheatrewales.org